Update for the Landlords Forum

Now entering its 13th year, the award winning Get It Out For Cardiff (GIOFC) Campaign is a Keep Cardiff Tidy (KCT) Initiative, which aims to clean up the mainly student areas of Cathays, Plasnewydd (Roath), and parts of Gabalfa at the end of the academic year.

The 2017 GIOFC campaign is an extension of the work being carried out by Waste Education & Enforcement Officers & partner agencies throughout the year. The existing arrangements in terms of waste collections, education and enforcement activities will be promoted and key messages such as recycling collected every week.

The key messages for landlords include:

- Make sure all tenants are aware that their waste is their responsibility and advise them of the correct procedure;
  - promotion of kerbside collection dates
  - location of reusable donation points (YMCA banks and donation points)
  - option to dispose of additional items at Household Waste and Recycling Centres
  - option to use the chargeable one off collection service and free bulky waste service
- Be aware that the day tenant's move may not be a waste collection day. Any communication with tenants should **not** advise them to place their waste out for collection on the day that they leave. Arrangements must be made in advance.
- Once tenants have left, only household waste, food waste and green recycling bags will be collected from the kerbside on collection day. In addition, only waste presented in the correct receptacles will be removed. All other waste will be considered as incorrectly presented waste and will be dealt with accordingly.
- Be aware that enforcement action will be taken against the person / company responsible for dumping waste on the highway. This will include, cleaning companies etc. working on behalf of landlords / property management companies. So it is important they are made fully aware of the procedure.
- Please note that **no additional weekend kerbside collections will be provided.**

The Waste Education and Enforcement team are undertaking engagement and door knocking with properties in Cathays that have frontage issues, advising tenants about vacating the property, how to be responsible when disposing of waste and to prepare in advance. Landlords' assistance in disseminating the GIOFC messages will be appreciated.

Full information, including downloadable advice sheets for tenants, posters and leaflets, can be found on the GIOFC campaign www.cardiffdigs.co.uk, from the 21st April 2017. These can also be ordered from this date by emailing Emma.Robson@cardiff.gov.uk . We will continue to provide updates on the campaign when further information is available, through email. If you have a question regarding the campaign, please contact NSComplaints&Requests@cardiff.gov.uk.

Thank you for your continued support.

Diweddariad ar gyfer y Fforwm Landlordiaid

Bellach yn ei 13eg blynedd, mae'r Ymgyrch Gwaredu'r Gwastraff yn Fenter gan Cadw Caerdydd yn Daclus sydd â'r nod o lanhau ardaloedd myfyrwyr Cathays, Plasnewydd (y Rhath) a rhannau o Gabalfa ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

Mae ymgyrch Gwaredu'r Gwastraff 2017 yn estyniad o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Swyddogion Addysg a Gorfodi Gwastraff ac asiantaethau partner drwy gydol y flwyddyn. Bydd y trefniadau presennol o ran casglu gwastraff, addysg a gweithgareddau gorfodi yn cael eu hyrwyddo, ynghyd â negeseuon allweddol fel bod ailgylchu yn cael ei gasglu bob wythnos.

Mae'r negeseuon allweddol i landlordiaid yn cynnwys:

- Sicrhau bod pob tenant yn gwybod mai ef sy'n gyfrifol am ei wastraff gan esbonio'r trefniadau cywir iddo;
  - hyrwyddo dyddiadau casgliadau;
  - lleoliad ardaloedd ailddefnyddio (banciau YMCA a phwyntiau rhoi);
  - yr opsiwn i waredu eitemau ychwanegol mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref;
  - yr opsiwn o ddefnyddio'r casgliad gwastraff untro â thâl a'r gwasanaeth gwastraff swmpus am ddim
- Cofiwch efallai na fydd y tenant yn symud ar ddiwrnod casglu gwastraff. **Ni ddylai** unrhyw gyfarwyddiadau i denantiaid eu cynghori i roi eu gwastraff allan i'w gasglu ar y diwrnod y maen nhw'n gadael. Rhaid gwneud trefniadau ymlaen llaw.
- Unwaith y bydd y tenantiaid wedi gadael, dim ond gwastraff cyffredinol, gwastraff bwyd a bagiau ailgylchu gwyrdd gaiff eu casglu oddi ar ymyl y ffordd ar y diwrnod casglu. At hynny, dim ond gwastraff sy'n cael ei gyflwyno yn y cynwysyddion cywir fydd yn cael ei gasglu. Bydd unrhyw wastraff arall yn cael ei ystyried yn wastraff sydd wedi'i gyflwyno'n anghywir. Byddwn yn delio â hyn yn unol â hynny.
- Dylech nodi y cymerir camau gorfodi yn erbyn y person/cwmni sy'n gyfrifol am ddympio gwastraff ar y briffordd. Mae hyn yn cynnwys cwmnïau glanhau ac ati sy'n gweithio ar ran landlordiaid/cwmnïau rheoli eiddo. Felly mae'n bwysig eu bod yn gwybod beth yw'r drefn.
- **Ni fydd casgliadau ymyl y ffordd ychwanegol yn cael eu trefnu ar benwythnosau**.

Mae'r Tîm Addysg a Gorfodi Gwastraff yn cnocio ar ddrysau eiddo yn Cathays lle mae problemau gwastraff i'w gweld, gan roi cyngor i denantiaid ar adael yr eiddo, sut i waredu gwastraff yn gyfrifol a pharatoi ymlaen llaw. Byddem yn gwerthfawrogi cymorth landlordiaid i ledaenu negeseuon Gwaredu'r Gwastraff.

Ceir rhagor o wybodaeth, gan gynnwys taflenni cyngor, posteri a thaflenni gwybodaeth i denantiaid (gellir lawrlwytho'r rhain) ar wefan yr ymgyrch Gwaredu'r Gwastraff www.lletycaerdydd.co.uk o 21 Ebrill 2017. Gallwch hefyd archebu'r rhain drwy e-bostio Emma.Robson@caerdydd.gov.uk. Byddwn yn parhau i roi diweddariadau ar yr ymgyrch dros e-bost pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael. Os oes gennych gwestiwn am yr ymgyrch, cysylltwch â CwynionaCheisiadauGC@caerdydd.gov.uk.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.